Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 14 Medi 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda, Ddydd Mercher, 20 Medi 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **I ystyried Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac i ystyried unrhyw faterion sy'n codi (Tudalennau 3 - 6)**

4. **I ystyried adroddiad ar newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Tudalennau 7 - 10)**

5. **I ystyried adroddiad ar argymhelliad i gynnal arolwg Cynghorwyr mewn perthynas ag adnoddau ymchwil (Tudalennau 11 - 18)**

6. **I ystyred adrodddiad ar newidiadau i Gynllun Deisebau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys e-ddeisebau (Tudalennau 19 - 32)**

7. **I ystyried adroddiad ar Fframwaith Hunan-Asesu arfaethedig CLILC (Tudalennau 33 - 42)**

8. **Trafodaeth ar adolygu gwe-ddarlledu byw cyfarfodydd ychwanegol**

9. **I ystyried eitemau ar y flaenraglen**

10. **Unrhyw fater arall y penderfyn'ar Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Gwener, 9 Mehefin 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd) a'r Cynghorwyr Endaf Edwards, Gwyn James, Gareth Lloyd, Caryl Roberts a Mark Strong

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Wyn Thomas

Swyddogion yn bresennol: Lowri Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd), a Nia Jones (Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd)

(10.00am - 11.10am)

1 Ymddiheuriadau
Dim.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Dim.

3 I ystyried Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac i ystyried unrhyw faterion sy'n codi
PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2023 fel rhai cywir.

Materion sy'n codi
Gofynnodd yr aelodau am hyfforddiant ar lawrlwytho Office 365 i ddyfeisiau personol, gan gynnwys diogelwch a GDPR.

4 I ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2022 - 2023
Cyflwynodd Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi bod yr adroddiad yn cynrychioli faint o waith a wneir gan y Pwyllgor hwn, a phwysigrwydd y gwaith y maent yn ei wneud.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am baratoi'r adroddiad, gan nodi bod y fformat diwygiedig yn ei gwneud yn llawer haws darllen yr adroddiad.

Bydd yr adroddiad nawr yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2023 er gwybodaeth.

5 I ystyried adroddiad ar Brotocol Ddrafft Mynychu Cyfarfodydd aml-leoliad Llywodraeth Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd
Cyflwynodd Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi bod y protocol drafft wedi'i greu i adlewyrchu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol ac Anstatudol Drafft Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod hon yn ddogfen weithredol y gallai fod angen ei haddasu i adlewyrchu

unrhyw newidiadau i Ganllawiau Llywodraeth Cymru a datblygiadau gweithredol.

Nododd yr aelodau nad yw'r protocol yn mynnu bod Cadeiryddion yn bresennol yn Siambr y Cyngor, a nodwyd bod y rheoliadau yn caniatáu i bob Aelod ddewis eu dull o fynychu.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd ynghylch ymarferoldeb cadw eu camerâu ymlaen drwy'r amser pan fo ganddynt fynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd a gofynnon nhw a fyddai'r holl Gynghorwyr, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor, yn aros fel 'Panelwyr' drwy gydol y cyfarfod er mwyn osgoi'r oedi o gael eu trosglwyddo wrth godi eu dwylo. Nododd yr Aelodau hefyd bwysigrwydd hybu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd, y gellid ei wella ymhellach yn y ddogfen.

Nodwyd mai nod y protocol yw adlewyrchu'r arfer yn bersonol, lle mae aelodau'r pwyllgor fel arfer yn eistedd o amgylch bwrdd y Cabinet, a'r rheini nad ydynt yn Aelodau yn eistedd yn y rhesi allanol. Nodwyd hefyd y byddai hyfforddiant yn cael ei roi i'r holl Gynghorwyr, ar y protocol i gynnwys hyfforddiant ar ymddygiad cyfarfodydd y gofynnodd y Pwyllgor yn flaenorol amdano.

Nodwyd hefyd fod cefnogi cyfarfodydd hybrid, a'r ffrydio byw yn hynod o ddwys o ran adnoddau, a bod datblygiadau yn mynd rhagddynt i ddiwygio'r prosesau ffrydio byw presennol.

PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r Protocol Drafft Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Llywodraeth Leol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd.

6 I ystyried adroddiad ar bapur trafod Cyfarfodydd Aml-leoliad

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi mai papur trafod yw hwn i ofyn am farn Aelodau'r Pwyllgor ynghylch cyfnod prawf o 18 mis lle cynhelir cyfarfodydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd o bell yn unig.

Nododd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r prawf, gan nodi bod y dull hybrid presennol o ymdrin â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hynod heriol i Aelodau sy'n mynychu o Siambr y Cyngor, oherwydd bod y Cadeirydd yn bresennol o bell. Gwnaethant nodi hefyd y byddai cynnwys Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn y prawf yn rhoi cipolwg rhagorol iddynt, a phrofiad uniongyrchol o'r dull o bell yn unig.

Nododd yr aelodau y dylai fod yn glir mai cyfnod prawf yw hwn, ac y bydd cyfarfodydd hybrid yn ailddechrau'n awtomatig ar ôl 18 mis, yn amodol ar y pwyllgor hwn yn argymell i'r Cyngor ei fod yn parhau a'r Cyngor yn cymeradwyo'r trefniadau. Nododd y swyddogion y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn i gynnwys adborth gan y ddau bwyllgor.

PENDERFYNWYD argymell y cyfnod prawf ar gyfer cyfarfodydd o bell yn unig ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2023.

7 I ystyried adroddiad ar Strategaeth Hyfforddiant Aelodau

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi bod Canllawiau Statudol ac Anstatudol Drafft Llywodraeth Cymru yn datgan "gallai Cynghorau lunio strategaeth i ddatblygu aelodau". Nodwyd nad yw hyn yn ofyniad statudol, fodd bynnag mae strategaeth ddrafft wedi'i pharatoi sy'n adlewyrchu'r arfer presennol sydd eisoes ar waith yng Ngheredigion.

Nodwyd bod y canllawiau drafft yn rhoi rhestr o bynciau ar gyfer rhaglen hyfforddi barhaus o ddatblygu aelodau y gellid eu cynnwys, ac yr argymhellir bod Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y pynciau ychwanegol yn ei raglen hyfforddi:

- Hyfforddiant ar rolau penodol y gall aelodau eu cyflawni megis llywodraethwyr neu gynrychiolwyr ar fyrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub neu barciau cenedlaethol gan gynnwys briff byr ar ddiben y rôl a chyfrifoldebau'r aelod o ran rhoi gwybod i'r cyngor am ddatblygiadau ar y corff y mae'n cynrychioli'r cyngor arno, lefel y penderfyniadau a ddirprwyir iddynt a sut y gallant gael cymorth i'w cefnogi yn y rôl;
- Hyfforddiant ar rôl cynghorydd fel aelod lleol, dirprwyo swyddogaethau i aelodau wardiau a galwadau gan gynghorwyr am weithredu.

Nododd yr aelodau y byddai angen i'r hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr ar wahanol gyrff allanol ganolbwyntio ar rôl y Cynghorydd fel cynrychiolydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD

a) Cymeradwyo ychwanegu'r 2 eitem ychwanegol at y rhaglen gynefino fel y nodwyd uchod; a
b) Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr.

8 I ystyried adroddiad ar 'Galwad gan Gynghorydd i Weithredu'

Cyflwynodd Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r pwyllgor gan nodi'r cefndir hanesyddol i'r ddeddfwriaeth 'Galwad am Weithredu'. Nodwyd nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu ar hyn o bryd yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ac mai nod y protocol hwn oedd amlygu'r ffordd hon o weithredu i Aelodau, gan nodi nad yw hyn yn disodli'r trefniadau presennol o ran craffu a bod profforma ar gyfer cyflwyno 'Galwadau am Weithredu' wedi'i baratoi i gynorthwyo'r Aelodau drwy'r broses.

Nododd yr Aelodau y dylid ystyried y cam hwn pan fetho popeth arall, a'i fod yn fecanwaith pwysig lle mae pob ymgais arall wedi methu.

PENDERFYNWYD argymell y protocol i'w ystyried gan y Cyngor yn dilyn ystyriaeth gan Weithgor y Cyfansoddiad.

9 I ystyried adroddiad ar Gyhoeddiadau'r Cadeirydd

Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor yn nodi bod yr argymhelliad wedi'i gynnig i ddechrau gan Arweinwyr y Grwpiau. Nodwyd bod anghysondebau ar hyn o bryd o ran eitemau a gyflwynir yn ystod eitem agenda 'Materion Personol' y Cyngor a bod arolwg o holl Awdurdodau Cymru wedi canfod nad yw arfer presennol y Cyngor yn cael ei adlewyrchu yn unman arall ac mai'r arfer oedd cael 'Cyhoeddiadau'r Cadeirydd' yn hytrach na 'Materion Personol'.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor fod mwy o amser wedi'i neilltuo yn ystod cyfarfodydd blaenorol y Cyngor i gyflwyno materion personol nag ar gyfer trafod materion pwysig megis cyllideb y Cyngor. Nododd yr aelodau ei bod yn bwysig nad yw llais y Cynghorydd yn cael ei golli, ond byddai'r newid arfaethedig yn sicrhau mwy o degwch, ac argymhellwyd bod Cyhoeddiadau'r Cadeirydd yn nodi'r Cynghorydd a'r Ward perthnasol.

PENDERFYNWYD argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Cyhoeddiadau'r Cadeirydd, gan nodi y dylid cynnwys y Cynghorydd a'r Ward perthnasol.

10 I ystyried adroddiad ar Gomisiwn Gwarineb Jo Cox

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth Gomisiwn Gwarineb Jo Cox, a **PHENDERFYNWYD** gofyn i Lowri Edwards ysgrifennu at y Comisiwn i gynnig ein cefnogaeth a'n parodrwydd i gymryd rhan yn y cyfnod casglu gwybodaeth.

11 I ystyried eitemau ar y flaenraglen

Trafododd yr Aelodau eitemau ar gyfer y Flaenraglen Waith, a oedd yn cynnwys y canlynol:

a) Protocol ar Les Cynghorwyr a Diogelwch Personol;
b) Canllawiau i gynrychiolwyr Wardiau Aml-Aelod;
c) Protocol ar gyfer cyfleusterau ymchwil;
d) Diwygiad i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor; ac
e) Adolygiad o ddarlledu cyfarfodydd ychwanegol.

Nodwyd bod y materion uchod yn adlewyrchu canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru, a chytunwyd i ddod â chyfarfod nesaf Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ymlaen o 7 Rhagfyr i 20 Medi 2023 i ystyried y materion hyn.

12 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad:	**20.0 9.2023**
Title:	**Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Cefndir
Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru, sy'n cefnogi darpariaethau o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, adran 13.0 Canllawiau Statudol Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn darparu amlinelliad o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r Cylch Gorchwyl presennol, fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor, wedi cael ei adolygu i adlewyrchu cynnwys y canllawiau, ac argymhellir bod y diwygiadau canlynol yn cael eu gwneud i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

a) **Cyflwyniad**
Cynnwys cyfeiriad yn y cyflwyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorau Egwyddor yng Nghymru.
Hefyd i gynnwys y datganiad canlynol: 'Bydd *cyfarfodydd ac is-bwyllgorau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn agored i'r cyhoedd fel sy'n arferol yng nghyfarfodydd y cyngor ac yn ddarostyngedig i'r un drefn hygyrchedd yn gyffredinol'.* (yn unol ag adran 13.15 o'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol)

b) **Cylch gorchwyl**
Cynnwys y canlynol yn adran 'Cylch Gorchwyl' adran y Pwyllgor: '*Gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd benderfynu sut mae'n cyflawni'r swyddogaethau hyn*' (yn unol ag adran 13.10 o'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol)

c) **Aelodaeth**
I nodi yn yr adran 'Aelodaeth' y bydd y 6 Aelod yn 'gytbwys yn wleidyddol', a *: 'Dylai gynnwys cynghorwyr yn unig ac ni all gynnwys mwy nag un aelod o'r weithrediaeth neu gynorthwyydd i'r weithrediaeth. Ni ddylai unrhyw aelod gweithredol fod yn arweinydd y cyngor'*. (yn unol ag adran 13.11 o'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol)

d) **Cadeirydd**
I gynnwys y canlynol o fewn yr adran 'Cadeirydd': '*Ni ddylai'r Cadeirydd fod yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y weithrediaeth. Yr eithriad i hyn yw pan nad oes gan gyngor unrhyw grwpiau gwrthblaid. Yn yr*

achos hwn, gellir penodi unrhyw aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn gadeirydd ar yr amod nad yw'r aelod yn aelod o'r weithrediaeth.' (yn unol ag adran 13.12 o'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol)

e) Amlder y Cyfarfodydd

Mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn, ond mae'r Cylch Gorchwyl presennol yn nodi y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith mewn unrhyw flwyddyn fwrdeistrefol. Argymhellir diwygio'r adran 'Amlder Cyfarfodydd' i nodi: '*Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith mewn unrhyw flwyddyn ddinesig, ond bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn anelu at gwrdd o leiaf 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn fwrdeistrefol'.* Argymhellir hefyd, lle mae'r Cylch Gorchwyl yn datgan y gellir ymgynnull cyfarfodydd os yw'r Cyngor llawn yn penderfynu neu os bydd o leiaf draean aelod o'r Pwyllgor yn mynnu cyfarfod, y dylid ychwanegu'r datganiad canlynol: '*Nid oes cyfyngiad ar uchafswm nifer y cyfarfodydd y gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu cynnal.'* (yn unol ag adran 13.15 o'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol)

Gellir gweld y gwelliannau a argymhellir uchod yng Nghylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd drafft trwy newidiadau trac yn Atodiad A.

Y camau nesaf

I Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y diwygiadau drafft i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor o ran cynnwys y Cylch Gorchwyl diwygiedig yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylid cynnwys y gweithdrefnau sy'n ymwneud â gweithrediad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno i Weithgor y Cyfansoddiad i'w mabwysiadu.

Argymhellion:	Ystyried y Cylch Gorchwyl diwygiedig drafft, a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig.
Atodiadau:	Cylch gorchwyl Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda diwygiadau arfaethedig
Dogfennau cefndir:	Canllawiau statudol a di-statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau Cymru; Deddf Llywodraeth Leol 2000; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
Enw:	Lowri Edwards
Teitl Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	03.08.2023

CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Mae Adran 16 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn mynnu bod y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â'r Canllawiau Statudol. Mae'r Cylch Gorchwyl ar sail Pennod 3 o'r Canllawiau Statudol, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru.

Bydd cyfarfodydd ac is-bwyllgorau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn agored i'r cyhoedd fel sy'n arferol yng nghyfarfodydd y cyngor ac yn ddarostyngedig i'r un drefn hygyrchedd yn gyffredinol.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

Swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd yw:

- Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd
- Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, i'r cyngor llawn am y materion hyn.
- Ystyried amseriad cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau

Gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd benderfynu sut mae'n cyflawni'r swyddogaethau hyn.

Aelodaeth

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod cytbwys gwleidyddol a benodir gan y Cyngor. Dylai gynnwys cynghorwyr yn unig ac ni all gynnwys mwy nag un aelod o'r weithrediaeth neu gynorthwyydd i'r weithrediaeth. Ni ddylai unrhyw aelod gweithredol fod yn arweinydd y cyngor.

Cadeirydd

Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Cyngor a bydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd ddinesig yn olynol (yn unol ag Erthygl 5.2 Rhan 2 y Cyfansoddiad). Ni ddylai'r Cadeirydd fod yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y weithrediaeth. Yr eithriad i hyn yw pan nad oes gan gyngor unrhyw grwpiau gwrthblaid. Yn yr achos hwn, gellir penodi unrhyw aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn gadeirydd ar yr amod nad yw'r aelod yn aelod o'r weithrediaeth.

Cyfethol

Nid yw'r Mesur yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor gyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

Is-bwyllgorau

Caiff y Pwyllgor benodi is-bwyllgorau yn ôl y gofyn a dirprwyo swyddogaethau iddynt.

Bydd y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd unrhyw is-bwyllgor.

Dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i ateb cwestiynau
Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) bŵer i fynnu bod unrhyw rai o Aelodau neu Swyddogion y Cyngor yn dod i'w gyfarfodydd i ateb cwestiynau, a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n dymuno'i wahodd hefyd. Os bydd gofyn i aelod neu swyddog ddod i gyfarfod, rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiwn, oni bai ei fod yn gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn llys barn.

Mynediad at wybodaeth
Mae Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor yn berthnasol i drafodion y Pwyllgor, fel y'u nodir yn Nogfen B Rhan 4 y Cyfansoddiad.

Pa mor aml fydd y pwyllgor yn cyfarfod
~~Bydd y~~ Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith mewn unrhyw flwyddyn ddinesig, ond bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn anelu at gwrdd~~yn cyfarfod~~ o leiaf dair gwaith yn ystod unrhyw flwyddyn ddinesig.

Gellir cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor hefyd os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu y dylid gwneud hynny, neu os bydd o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn galw am gyfarfod. Nid oes cyfyngiad ar uchafswm nifer y cyfarfodydd y gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu cynnal.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn.

Canllawiau Llywodraeth Cymru
Rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru pan fydd yn cyflawni'i swyddogaethau.

Adroddiadau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn pen tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor llawn ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan y Pwyllgor cyn pen tri mis.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad:	**20.09.2023**
Teitl:	**Cynnig i gynnal arolwg o'r holl gynghorwyr mewn perthynas â chyfleusterau ymchwil.**
Pwrpas yr adroddiad:	**I ystyried dirprwyo i Swyddog gynnal arolwg o'r holl gynghorwyr mewn perthynas â chyfleusterau ymchwil.**

Cefndir
Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru, yn argymell y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried darparu Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr fel rhan o'i ystyriaethau ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â adnodd digonol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gyflawni eu swyddogaethau. Roedd y canllawiau yn rhagweld y bydd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfeirio aelodau unigol at ffynonellau gwybodaeth presennol neu hyfforddiant sydd ar gael, yn ogystal â sesiynau briffio cyn cyfarfod a chymorth wedi'i dargedu er enghraifft wrth arwain ar ymchwiliad gorchwyl a gorffen, neu mewn ymateb i alwad am weithredu.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud " *Rhagwelir y bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn dechrau'r broses hon trwy nodi'r llinell sylfaen o gefnogaeth sydd eisoes ar gael i aelodau, yna gweithio gydag aelodau i nodi sut y gellid datblygu'r gefnogaeth hon a'i pharamedrau dros amser."*

Mae Atodiad A yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i Gynghorwyr.

Dylid nodi nad yw'r canllawiau'n dweud bod hwn yn ofyniad statudol, ond mae'n awgrymu y dylai'r pwyllgor 'ystyried' hyn.

Er mwyn deall yr angen neu'r galw am gyfleusterau ymchwil, argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn dirprwyo cyfrifoldeb i Swyddogion i ymgynghori gyda aelodau mewn perthynas â'r llinell sylfaen bresennol o gymorth sydd ar gael, ac i nodi pa gymorth ychwanegol sydd ei angen a sut y gellid datblygu'r cymorth hwn dros amser, er mwyn nodi a oes achos dros ddarparu adnoddau ychwanegol (Atodiad A)

Ar ôl cwblhau'r arolwg hwn, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu canfyddiadau'r arolwg.

Argymhellion:	Gofyn i Swyddogion ymgynghori Cynghorwyr mewn perthynas â'r cymorth sylfaenol sydd ar gael

	i aelodau ar hyn o bryd ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen.
Atodiadau:	Atodiad A – gwybodaeth yn ymwneud â'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i Gynghorwyr Atodiad B – arolwg drafft
Dogfennau cefndir:	Canllawiau statudol a di-statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau Cymru; Deddf Llywodraeth Leol 2000; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
Enw:	Lowri Edwards
Teitl Swydd: Democrataidd	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau
Dyddiad:	03.08.2023

Atodiad A

Llinell sylfaen y cymorth sydd ar gael i'r Aelodau ar hyn o bryd
Er mwyn deall sut mae'n cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach o ddeddfwriaeth a dogfennau Canllawiau Llywodraeth Cymru, mae angen cynnal adolygiad trylwyr o'r cymorth presennol a fydd wedyn yn sicrhau bod unrhyw raglen waith newydd yn berthnasol ac yn ategu'r cymorth presennol sydd ar gael.

Isod mae rhestr o'r ddarpariaeth bresennol i'w hystyried gan Gynghorwyr wrth gwblhau'r arolwg.

Cefnogaeth a ddarperir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu ei swyddogaethau mewn perthynas â chefnogaeth yr Aelodau. Mae hyn yn cynnwys:

- Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd
- Ystyried amseriad cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau

Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) bŵer i fynnu bod unrhyw rai o Aelodau neu Swyddogion y Cyngor yn dod i'w gyfarfodydd i ateb cwestiynau, a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n dymuno'i wahodd hefyd. Os bydd gofyn i aelod neu swyddog ddod i gyfarfod, rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiwn, oni bai ei fod yn gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn llys barn.
Yn ogystal â'r gofynion a nodir yn y Cylch Gorchwyl, mae Swyddogion hefyd yn darparu gwybodaeth a data sy'n berthnasol i'r pwyllgor megis:

- Amrywiaeth mewn democratiaeth;
- Presenoldeb hybrid;
- Arolygon ymadael.

Mae hefyd yn cynnal arolygon aelodau fel:

- Arolwg o hoff amseroedd cyfarfodydd, a dyddiadau
- Arolwg o ofynion TGCh a hyfforddiant yr Aelodau
- Arolwg dysgu a datblygu
- Arolwg Hunanasesu Trosolwg a Chraffu .

Rhennir data a dadansoddiad sy'n deillio o'r arolygon hyn gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Briffio Cadeiryddion
Yn ogystal â darparu hyfforddiant i Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, caiff pob Cadeirydd eu briffio cyn y cyfarfod ar faterion gweithdrefnol fel:

- Manylion y personau a fydd yn cyflwyno adroddiadau, gan gynnwys Cadeiryddion Craffu, a swyddogion cymorth
- Mynychwyr ac ymddiheuriadau

- Hysbysiad o ddatganiadau o fuddiant a materion personol a dderbyniwyd cyn y cyfarfod
- Gweithdrefnau mewn perthynas â phleidleisio, pleidleisiau wedi'u recordio ac ati

Adnabod meysydd i'w hymchwilio gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu
Mae Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn gyfrifol am benderfynu ar gynnwys yr agenda, fodd bynnag, wrth benderfynu ar eitemau ar gyfer y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae'r Swyddogion Craffu yn darparu arweiniad sy'n cynnwys pynciau a gymerir o:

- Y Strategaeth Gorfforaethol
- Cynlluniau Busnes
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Arbedion cyllideb – cynigion ac effaith
- Cyfarfodydd Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol Chwarterol
- Mewnbwn adrannol
- Gwaith sy'n parhau.

Mae'r Swyddogion Craffu yn rhoi cymorth i Aelodau drwy gydlynu ceisiadau'r pwyllgor gyda'r Swyddogion perthnasol, a sefydliadau allanol. Mae'r Swyddogion Craffu hefyd yn drafftio adroddiad ar ran y Pwyllgor ar y cyd â'r Cadeirydd i'w ystyried gan y Cabinet neu'r Cyngor.

Cefnogaeth ar gyfer ymchwiliadau Gorchwyl a Gorffen Trosolwg a Chraffu
Mae Swyddogion Craffu yn rhoi cymorth i Aelodau drwy drefnu ymchwiliadau gorchwyl a gorffen a chydlynu â Swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor neu sefydliadau allanol i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor perthnasol.

Paratoi adroddiadau ar gyfer pwyllgorau
Mae swyddogion o'r holl wasanaethau ar draws y Cyngor yn chwarae rhan wrth ddarparu gwybodaeth, data ac adroddiadau i bwyllgorau yn unol a'u cais. Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol hefyd yn darparu sesiynau briffio manwl i'r Aelod Gweithredol sy'n cyflwyno'r adroddiad, ac yn bresennol yn ystod y cyfarfod i ddarparu cymorth pe bai cwestiynau atodol yn codi.

Hyfforddiant, Gweithdai a Sesiynau Briffio
Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am y rhaglen ymsefydlu a hyfforddiant ar gyfer yr holl Aelodau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o hyfforddiant o God Ymddygiad i hyfforddiant sy'n benodol i Bwyllgorau fel Rheoli Datblygu a Thrwyddedu; Cadeirio Pwyllgorau; rôl a chyfrifoldebau Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol; Craffu; Cydraddoldeb; Safonau'r Gymraeg; Diogelu; Iechyd a Diogelwch a gweithio ar eich pen eich hun; Cyfathrebu a'r Cyfryngau Cymdeithasol; a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i enwi ond ychydig.

Yn ogystal â gweithgareddau hyfforddi, darperir gweithdai mewnol i'r Cynghorwyr ar themâu fel y Polisi Cludiant Ysgol, Polisiau'r Gofrestr Tai, a Chyllidebau yn ogystal â

gweithdai a drefnir ar y cyd â darparwyr allanol fel y Gwasanaeth Tân ac Achub, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phwer Hydrogen er mwyn cael gwell dealltwriaeth o rôl partneriaid allanol.

Darperir sesiynau briffio hefyd i'r Aelodau ar faterion sy'n dod i'r amlwg megis datblygiad Hafan y Waun, ac mae Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn darparu sesiynau briffio misol i Arweinwyr Grwpiau i'w rhannu gyda'u haelodau.

Cefnogaeth TGCh
Darperir cefnogaeth TGCh i aelodau yn uniongyrchol gan y gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid ar bob gwedd sy'n ymwneud â TGCh a'r dechnoleg a ddarperir ganddynt.

Gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ac adroddiadau'r Cyngor
Mae llawer o wybodaeth i'w gael ar dudalennau gwe y Cyngor ac fe'i darperir ar ffurf adroddiadau i bwyllgorau megis:

- Adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adroddiadau blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion
- Strategaeth Economaidd Ceredigion
- Adroddiadau chwarterol CYSUR/CWMPAS
- Adroddiadau digonolrwydd gofal plant
- Adroddiadau Ansawdd Aer a Rheoli Carbon
- Ymgynghoriadau, Ymgysylltu a Chyfranogiad

Cyn gofyn am wybodaeth neu ymchwil, dylai Aelodau ystyried a yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt eisoes ar gael yn gyhoeddus.

Gwasanaethau Perfformiad a Gwella
Mae'r Tîm Perfformiad a Gwella yn darparu dadansoddiadau ar berfformiad y Cyngor, yn ogystal â data allanol fel y Cyfrifiad a'i oblygiadau ar gyfer Ceredigion. Mae hwn yn adnodd defnyddiol, ac yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gweithgaredd ymchwil posibl.

Cyfryngau a Chyfathrebu
Mae Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ceredigion yn darparu copïau o'r holl ddatganiadau i'r wasg i bob Aelodau, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau neu ddatblygiadau sy'n ymwneud â nhw. Mae'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol hefyd yn darparu gwybodaeth y gall Aelodau ei rhannu i hyrwyddo gweithgareddau a gwybodaeth i'w preswylwyr.

Ymholiadau CLIC
Gall aelodau gyrchu gwybodaeth yn uniongyrchol drwy'r porth CLIC.

Darparwyr data allanol - Data Cymru
Mae nifer o ddarparwyr data allanol y gall Aelodau eu cyrchu, megis y Data Proffil Ward a ddarperir gan Data Cymru:
https://www.data.cymru/dashboards/localareaprofiles?q=lap23

Mae hyn yn rhoi gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar Gyfrifiad 2021, fesu Ward ac yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â:

- Pobl
- Cyflogaeth a sgiliau
- Iechyd a Gofal
- Cludiant
- Tai
- Iaith a hunaniaeth

Gellir hefyd gweld dolen i ddata a gyhoeddir gan lywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn: https://www.data.gov.uk/

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r holl Aelodau ar ddata ac ymchwil yn ystod mis Medi 2023.

Cefnogaeth gan gydweithwyr, arweinwyr grwpiau a phleidiau gwleidyddol
Gall aelodau gael cymorth, a rhannu profiadau gyda chydweithwyr, yn ogystal ag Arweinwyr Grŵp a Phlaid Gwleidyddol. Gall aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â Phlaid Wleidyddol gael mynediad at wybodaeth a chefnogaeth gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Atodiad B

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – AROLWG O GYMORTH A GWASANAETHAU YMCHWIL AR GYFER CYNGHORWYR

Yn unol â Chanllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru, Adran 3, dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y ddarparu cymorth a gwasanaethau ymchwil i aelodau etholedig drwy nodi'r llinell sylfaen o gymorth sydd eisoes ar gael i Aelodau, yna gweithio gyda Aelodau i geisio adnabod sut y gellid datblygu'r cymorth hwn a'i baramedrau dros amser, er mwyn nodi a oes achos dros ddarparu adnoddau ychwanegol.

1	Ar ôl ystyried y gefnogaeth sylfaenol i'r Aelodau a nodwyd ar hyn o bryd, a oes unrhyw feysydd cymorth eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y rhestr hon?
2	Pa gefnogaeth sydd wedi bod yn ddefnyddiol yn eich rôl fel Cynghorydd?
3	Beth ellid ei wella?
4	Pa wybodaeth / data sydd ei hangen arnoch nad yw ar gael ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd neu adroddiadau a ddarperir i bwyllgorau?
5	Pa wybodaeth / data sydd ei angen arnoch nad yw ar gael ar hyn o bryd drwy ddarparwyr allanol fel Data Cymru, CLILC ac ati
6	Rhestrwch unrhyw feysydd ymchwil a allai fod o ddefnydd i chi yn eich rôl fel Cynghorydd, lle nad yw'r wybodaeth hon ar gael eisoes yn gyhoeddus.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad:	**20.0 9.2023**
Teitl:	**Cynllun Deiseb Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys e-ddeisebau**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried diwygiadau** i **Gynllun Deisebau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys e-ddeisebau**

Cefndir
Mae Adran 42, Pennod 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi cynllun deiseb, gan gynnwys deisebau electronig. Cwblhawyd Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru, sy'n cefnogi darpariaethau o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ym mis Mehefin 2023. Mae adolygiad drafft o'r canllawiau presennol sy'n ymwneud â Chynllun Deisebau Cyngor Sir Ceredigion ynghlwm i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mae Protocol Deiseb presennol y Cyngor wedi'i amlinellu yn Nogfen O Gyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd y ddogfen hon i adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth mewn perthynas â deisebau electronig yn ogystal â'r canllawiau statudol drafft sy'n cynnwys:

- Esboniad clir o'r materion y bydd y cyngor yn derbyn deisebau yn eu cylch, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer penderfynu derbyn neu wrthod deiseb;
- Sut a ble y rhoddir cyngor i ddeisebwyr i'w galluogi i ymgysylltu'n gynhyrchiol â'r broses, gan gynnwys y mesurau sydd ar waith ar gyfer pobl anabl ac unigolion â chyflyrau iechyd hirdymor a niwroamrywiaeth;
- Dealltwriaeth glir o'r gwahanol gamau yn y cynllun deisebau, gydag esboniad o ba drothwyon a ddefnyddir i benderfynu ar y newid o un cam i'r llall;
- Sut y mae deisebau'n cyd-fynd â chyfleoedd eraill i'r cyhoedd gymryd rhan – a chyfeirio at gyfleoedd eraill, naill ai fel rhywbeth sy'n ategu deiseb neu rywbeth yn ei lle, gan gynnwys rhoi'r deisebydd arfaethedig mewn cysylltiad â'i gynghorydd ward;
- Y corff cywir i ystyried deiseb benodol. Mae'n iawn i ddeisebau gael eu clywed gan amrywiaeth o wahanol gyrff, er mai'r cyngor llawn sy'n debygol o fod y dewis diofyn, oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn arbennig o ddefnyddiol i'r ddeiseb gael ei chlywed gan bwyllgor sy'n canolbwyntio'n benodol ar bwnc y ddeiseb ei hun;
- Bydd angen i gynlluniau deisebau ystyried pryd y caiff deisebau eu hystyried mewn pwyllgorau craffu. Nid oes gan y pwyllgorau hyn unrhyw bŵer i weithredu ar ddeisebau ond gallent (er enghraifft) fabwysiadu dadleuon deisebwyr fel argymhellion ffurfiol;

- Hawliau deisebwyr i siarad mewn cyfarfodydd, a sut y mae hyn yn ymwneud â hawliau ehangach i siarad yn gyhoeddus, a hawliau i wneud dirprwyaethau;
- Sut ac o fewn pa amserlen y bydd y cyngor yn rhoi adborth i'r deisebydd ar lwyddiant neu fethiant ei ddeiseb.

CYNLLUN DEISEB ARFAETHEDIG CEREDIGION
Yn ogystal â'r gofynion uchod, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) **Ni fydd deisebau'n dderbyniol o systemau deisebau eraill ar-lein**
Nid yw'r ddogfen ganllaw yn nodi'r gofynion mewn perthynas â hyn fodd bynnag, mae'r argymhelliad o fewn y cynllun deisebau yn adlewyrchu ymarfer Senedd Cymru

b) **Gall Deisebau Electronig gasglu llofnod am gyfnod o 3 mis ar y mwyaf.**
Nid yw'r ddogfen cyfarwyddyd yn nodi'r gofynion mewn perthynas â hyn. Mae Senedd Cymru (Rheol Sefydlog 23) yn nodi uchafswm o 6 mis, ond cynigir bod Ceredigion yn nodi uchafswm cyfnod o 3 mis, er mwyn adlewyrchu ymateb cyflymach i faterion lleol.

c) **Mae deisebau sydd yr un fath neu'n sylweddol debyg i ddeiseb a gaeodd lai na blwyddyn ynghynt yn annerbyniol.**
Nid yw'r ddogfen ganllaw yn nodi'r gofynion mewn perthynas â hyn fodd bynnag, mae'r argymhelliad o fewn y cynllun deisebau yn adlewyrchu ymarfer Senedd Cymru

d) **Y corff cywir i ystyried deiseb benodol.**
Mae'r canllawiau'n nodi ei bod hi'n *iawn i ddeisebau gael eu clywed gan amrywiaeth o wahanol gyrff, er mai'r cyngor llawn sy'n debygol o fod y dewis diofyn, oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn arbennig o ddefnyddiol i'r ddeiseb gael ei chlywed gan bwyllgor sy'n canolbwyntio'n benodol ar bwnc y ddeiseb ei hun'.* Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn argymell bod deisebau'n cael eu clywed gan y Cabinet. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn darparu cyfle i Aelodau gyfeirio materion at y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol i'w hystyried.

e) **Cyfleoedd deisebwyr i siarad yn y Pwyllgor**
Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyfansoddiad yn nodi hawl i'r deisebydd siarad yn y Pwyllgor, fodd bynnag, mae mecanwaith eisoes i aelodau'r cyhoedd ofyn am ganiatâd i siarad yn ystod cyfarfodydd Craffu.

Gellir gweld y diwygiadau a argymhellir uchod yn y Protocol Deisebau diwygiedig drafft sydd ar gael yn Atodiad A.

Y camau nesaf
I Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y diwygiadau drafft i'r Protocol Deiseb, a gwneud argymhellion i Weithgor y Cyfansoddiad, i'w hystyried cyn cael eu cyflwyno i'r Cyngor.

Argymhellion:	Ystyried y Protocol Deisebau diwygiedig drafft, a gwneud argymhellion i Weithgor y Cyfansoddiad mewn perthynas â'r gwelliannau arfaethedig.

Atodiadau:	Protocol Deiseb diwygiedig Drafft
Dogfennau cefndir:	Canllawiau statudol a di-statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau Cymru; Deddf Llywodraeth Leol 2000; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
Enw:	Lowri Edwards
Teitl Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	03.08.2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cynllun Deisebau Cyngor Sir Ceredigion

Penderfynu ar y ffurf briodol o ddeisebau
Mae Cyngor Ceredigion wedi penderfynu ar y ffurf briodol o ddeisebau cyhoeddus a gyflwynwyd o dan Adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Modd a fformat ar gyfer cyflwyniadau
1. Gellir cyflwyno deisebau ar bapur neu'n electronig gan ddefnyddio system deisebau ar-lein Cyngor Sir Ceredigion, neu gyfuniad o'r ddau.
2. Dim ond unwaith y gall pobl arwyddo deiseb. Os byddant yn llofnodi'r ddeiseb ar-lein, gofynnir iddynt wirio eu cyfeiriad e-bost. Ni all pobl lofnodi deiseb ar-lein a phapur a gellir ei dileu os profir bod deisebydd wedi llofnodi ddwywaith.
3. Ni dderbynnir deisebau o systemau deisebau ar-lein eraill.
4. Gall Deisebau Electronig gasglu llofnod am gyfnod o 3 mis ar y mwyaf.
5. Ar gyfer deiseb bapur, dylid nodi geiriad y ddeiseb yn llawn ar bob dalen (neu ochr dalen) lle gofynnir am lofnodion a chyfeiriadau

Geiriad
1. Rhaid nodi geiriad deiseb electronig yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.
2. Dylid cyflwyno deisebau'n ddidwyll a'u cyfeirio at Gyngor Sir Ceredigion. Dylai alw ar Gyngor Sir Ceredigion i gymryd camau penodol, er enghraifft: '*Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ceredigion i...*'

Hysbysrwydd
Mae'n rhaid i'r ddeiseb nodi'n glir:
1. Enw'r deisebydd, a all fod yn unigolyn neu'n sefydliad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un o dan 18 oed.
2. Cyfeiriad y deisebydd, y mae'n rhaid iddo fod yng Ngheredigion lle dylid anfon yr holl ohebiaeth ynglŷn â'r ddeiseb.
3. Dyddiad i'ch deiseb orffen casglu llofnodion.

Deisebau Derbyniol
Rhaid i ddeisebau ymwneud â'r materion sy'n dod o dan awdurdodaeth Cyngor Sir Ceredigion, ac eithrio'r meini prawf na ellir eu derbyn isod.

Deisebau nad ydynt yn dderbyniol
1. Deisebau sy'n ymwneud ag unrhyw beth nad yw'n dod o dan awdurdodaeth y Cyngor
2. Deisebau sydd yr un fath, neu'n sylweddol debyg i ddeiseb a gaewyd lai na blwyddyn ynghynt
3. Deisebau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio neu drwyddedu
4. Deisebau statudol, neu ddeisebau yn ymwneud â Refferenda Awdurdodau Lleol sy'n dod o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001

5. Deisebau yn gofyn i'r Cyngor farnu, cyflafareddu neu gyfryngu buddiannau personol neu fasnachol dyma rôl llys neu dribiwnlys)
6. Deisebau ar faterion sy'n destun achos cyfreithiol yn y llysoedd
7. Deisebau ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan ombwdsmon (neu berson â phwerau tebyg)
8. Deisebau sydd yn y bôn yn geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (DRhG), sylwadau, canmoliaeth neu gwynion. Gweler y wybodaeth ar wefan Cyngor Sir Ceredigion fel a ganlyn:
   Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
   http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/rhyddid-gwybodaeth/
   Cyflwyno sylwadau, canmoliaeth a chwynion:
   http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/
9. Cymerir deisebau sy'n codi materion o gamymddwyn cynghorwyr posibl fel cwynion yn unol 6a Deddf Llywodraeth Leol 2000 a byddant yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hytrach na'u hystyried o dan y cynllun deisebau hwn.
10. Deisebau yn ymwneud ag awdurdodaeth Cynghorau Tref a Chymuned.

Ni ddylai deisebau gynnwys

1. Iaith sy'n sarhaus, yn dymherus neu'n bryfoclyd. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys cableddau amlwg, rhegi a sarhad, ond unrhyw iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn sarhaus
2. Datganiadau a allai fod yn ffug neu a allai fod yn ddifenwol
3. Gwybodaeth sy'n cael ei gwahardd rhag cael ei chyhoeddi gan orchymyn llys neu gorff neu berson sydd â phŵer tebyg
4. Deunyddiau a allai fod yn gyfrinachol, sensitif yn fasnachol, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol
5. Unrhyw gymeradwyaeth fasnachol, hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gyhoeddiad neu ddatganiadau sy'n gyfystyr â hysbysebion;
6. Enwau swyddogion cyrff cyhoeddus, oni bai eu bod yn uwch reolwyr y sefydliadau hynny;
7. Enwau aelodau o deulu cynrychiolwyr etholedig neu swyddogion cyrff cyhoeddus;
8. Enwau unigolion, neu wybodaeth lle gellir eu hadnabod, mewn perthynas â chyhuddiad troseddol;
9. Materion lle nad deiseb yw'r sianel briodol ar eu cyfer (er enghraifft, gohebiaeth am fater personol).

Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm, efallai y bydd angen i ni ddelio â'ch deiseb yn wahanol. Os felly, byddwn yn esbonio'r rhesymau ac yn trafod yr amserlen ddiwygiedig a allai fod yn berthnasol.

Cyflwyno e-ddeiseb gan ddefnyddio system ar-lein y Cyngor.
Gellir gweld system deisebau ar-lein y Cyngor yma: xxxxxx
Gofynnir i chi fewnbynnu'r wybodaeth ganlynol:

a) Teitl a thestun y ddeiseb
b) Eich enw
c) Eich e-bost
d) Eich cyfeiriad
e) Dyddiad i'ch deiseb orffen casglu llofnodion. Gall deisebau gasglu llofnodion am gyfnod o 3 mis ar y mwyaf. Efallai y byddai'n werth cofio na fydd y Cyngor yn ystyried eich deiseb tan ar ôl iddo orffen casglu llofnodion.

Cydnabod derbyn deiseb electronig
Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich deiseb, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ei bod wedi'i derbyn. Yna bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn ei ystyried yn erbyn y rheolau ar gyfer deisebu'r Cyngor fel y nodir uchod.

Os yw eich deiseb yn dderbyniol fel yr ydych wedi'i geirio, caiff ei chyhoeddi ar ein gwefan o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn a gall ddechrau casglu llofnodion. Byddwn yn cadarnhau hyn drwy e-bost ac yn anfon y ddolen atoch i'ch deiseb.

Os nad yw eich deiseb yn dderbyniol, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn dweud wrthych y rheswm pam na all fynd ymlaen. Efallai bod y mater a godwyd gan eich deiseb yn dderbyniol mewn egwyddor, ond bod rhai agweddau o'r geiriad sy'n disgyn y tu hwnt i'r rheolau. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd tîm y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â chi i awgrymu ffyrdd y gallwch newid y geiriad fel ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheolau. Unwaith y byddwch yn hapus gyda'r geiriad terfynol, bydd eich deiseb yn cael ei chyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith o gadarnhau'r geiriad diwygiedig a gall ddechrau casglu llofnodion.

Os yw eich deiseb yn annerbyniol fel y nodir yn y rheolau uchod ac na ellir ei chywiro drwy ddiwygio'r geiriad, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn dweud wrthych y rheswm pam na all fynd ymlaen. Cyhoeddir teitl a thestun y ddeiseb ar-lein fel rhan o'r rhestr o ddeisebau annerbyniadwy, ynghyd ag esboniad ynghylch pam nad oeddwn yn dderbyniadwy.

Cyflwyno'ch deiseb
Ar gyfer e-ddeisebau, ystyrir mai'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y dyddiad a bennwyd i roi'r gorau i gasglu llofnodion yw'r dyddiad 'trosglwyddo'. Yna bydd yr e-ddeiseb yn cael ei hanfon ymlaen at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol, neu, yn ei absenoldeb, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol.

Dylai unrhyw ddeiseb bapur gael ei derbyn gan Aelod, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Dylid anfon unrhyw ddeiseb a dderbynnir yn syth at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol, neu yn ei absenoldeb, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol ar gyfer y pwnc dan sylw.

Cydnabod derbyn yr holl ddeisebau
Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cydnabod derbyn y ddeiseb o fewn 10 diwrnod gwaith i'r 'dyddiad cyflwyno'. Mae derbynioldeb deisebau electronig yn cael eu gwirio ar ddechrau'r broses, fodd bynnag, os bernir bod unrhyw ddeiseb

bapur yn annerbyniol am y rhesymau a amlinellir yn yr adran uchod, cewch eich hysbysu o'r rheswm pam na all fynd ymlaen.

NODER - Dylid cydnabod deisebau drwy ysgrifennu at y llofnodwr cyntaf i'r ddeiseb, neu i'r person sy'n cyflwyno'r ddeiseb os bydd llythyr eglurhaol yn cyd-fynd â hi, neu os caiff ei chyflwyno'n electronig.

Camau a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb i ddeiseb a dderbyniwyd
Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn anfon copi o ddalen flaen y ddeiseb, ynghyd ag amcangyfrif o nifer y llofnodwyr, at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol / Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofrestr o'r holl ddeisebau a dderbynnir.

Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn adrodd am dderbyn y ddeiseb i'r cyfarfod Cabinet nesaf a bydd yn cadw'r ddeiseb wreiddiol. Bydd union eiriad teitl y ddeiseb yn cael ei adrodd i'r Cabinet, ynghyd â nifer y deisebwyr. Bydd y wybodaeth hon yn ymddangos ar agenda'r Cabinet.

Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn ystyried y ddeiseb wrth wneud unrhyw benderfyniad dirprwyedig a bydd yn cyfeirio ato mewn unrhyw adroddiad i'r Cabinet ynghylch y pwnc dan sylw.

Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn hysbysu'r person sy'n cyflwyno'r ddeiseb am unrhyw ganlyniad sy'n deillio o'r ddeiseb.

Cyfleoedd Ymgysylltu Eraill
Bydd yr Aelod Cabinet perthnasol yn cael gwybod am y ddeiseb, a lle bo'r testun yn effeithio ar wardiau penodol, bydd y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r wardiau hynny hefyd yn cael eu hysbysu o dderbyn y ddeiseb.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Aelodau hynny gysylltu â'r deisebydd ac ystyried dulliau amgen neu ategol o ymdrin â'r mater, er enghraifft cyflwyno llythyr yn gofyn am ystyriaeth ynghylch cyfyngiadau parcio mewn ardal benodol neu gyfeirio mater i'w ystyried gan Craffu.

Cydraddoldeb a'r Gymraeg
Wrth weithredu'r Protocol Deiseb, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried y dyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Diogelu data a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
Byddwn yn cadw'r holl geisiadau am 6 blynedd. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd yn cael ei ddinistrio mewn modd diogel.

PROTOCOL DEISEBAU

1. Dylai unrhyw ddeiseb (ac eithrio deiseb a ddaw i law mewn ymateb i gais Cynllunio neu fater sy'n ymwneud â Thrwyddedu) gael ei derbyn gan Aelod Etholedig, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

2. Dylai unrhyw ddeiseb sy'n dod i law aelod o Staff neu Aelod Etholedig gael ei hanfon ymlaen ar unwaith at y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol. Os bydd y Cyfarwyddwr yn absennol, dylid anfon y ddeiseb ymlaen at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol sy'n gyfrifol am y pwnc dan sylw.

3. Dylai'r Aelod Cabinet perthnasol (a'r Aelod lleol lle bo hynny'n briodol) gael gwybod bod y ddeiseb wedi dod i law.

4. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn cydnabod iddo/iddi dderbyn y ddeiseb o fewn dau ddiwrnod gwaith a bydd yn anfon copi o dudalen flaen y ddeiseb, ynghyd ag amcangyfrif o nifer y llofnodwyr, at y Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofrestr o'r holl ddeisebau a ddaw i law.

5. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn adrodd bod y ddeiseb dan sylw wedi dod i law gerbron cyfarfod nesaf y Cabinet a bydd yn cadw'r ddeiseb wreiddiol yn ei feddiant / ei meddiant. Caiff union eiriad teitl y ddeiseb ei adrodd i'r Cabinet ynghyd â nifer y deisebwyr. Bydd y wybodaeth hon yn ymddangos ar agenda'r Cabinet.

6. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn ystyried y ddeiseb wrth wneud unrhyw benderfyniad sydd wedi'i ddirprwyo iddo/iddi a bydd yn cyfeirio at y ddeiseb mewn unrhyw adroddiad a fydd yn mynd gerbron y Cabinet neu'r Cyngor (fel y bo'n briodol) ynghylch y pwnc dan sylw.

NODYN

Dylid cydnabod deisebau trwy ysgrifennu at y llofnod cyntaf ar y ddeiseb neu at y sawl sy'n cyflwyno'r ddeiseb os oes llythyr eglurhaol ynghlwm wrthi.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

2.0 Canllawiau Statudol ar Ddeisebau

Statws y Canllawiau hyn

2.1 Mae'r rhain yn ganllawiau statudol a wneir o dan adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021).

Diben y Canllawiau hyn

2.2 Diben y canllawiau hyn yw helpu cynghorau i baratoi a chynnal cynlluniau deisebau sydd â'r nod o alluogi cymunedau i archwilio cymorth ar gyfer materion penodol er mwyn rhoi sail i drafodaethau'r cyngor.

Gofynion y Ddeddf

2.3 Mae adran 42 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud a chyhoeddi cynllun deisebau sy'n nodi sut y mae'r cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau, gan gynnwys deisebau electronig, ac ymateb iddynt.

2.4 Rhaid i'r cynllun deisebau nodi'r hyn a ganlyn, o leiaf:

a) sut i gyflwyno deiseb i'r cyngor;
b) sut ac erbyn pryd y bydd y cyngor yn cydnabod ei fod wedi cael deiseb;
c) y camau y gall y cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb y mae'n ei chael;
d) yr amgylchiadau (os oes rhai) pan allai'r cyngor beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ddeiseb;
e) sut ac erbyn pryd y bydd y cyngor yn sicrhau bod ei ymateb i ddeiseb ar gael i'r person a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

2.5 Rhaid i brif gyngor adolygu ei gynllun deisebau o dro i dro, a diwygio'r cynllun os yw'r cyngor yn ystyried bod hynny'n briodol.

2.6 Os yw prif gyngor yn diwygio cynllun deisebau neu'n rhoi un newydd yn ei le, rhaid iddo gyhoeddi'r cynllun diwygiedig neu'r cynllun newydd.

Cynllunio cynllun deisebau

2.7 Ni ddylid ystyried cynllun deisebau fel yr unig ffordd o dderbyn barn y cyhoedd ar faterion. Dylai ei gynllun a'i derfynau fod o fewn cyd-destun strategaeth cyfranogiad y cyhoedd y cyngor, a dylai'r llwybrau cyfranogi eraill sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd fwydo i mewn i'r cynllun. Felly, fel rhan o gyfres o lwybrau a ddefnyddir yn rhan o strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ehangach y cyngor, gall fod yn arf pwerus i fesur cefnogaeth ar gyfer camau gweithredu penodol.

2.8 Gall systemau deisebau sydd wedi'u cynllunio'n dda, sydd â digon o adnoddau ac sy'n gweithio ar y cyd â llwybrau cyfranogi eraill arwain at amrywiaeth o fanteision i'r cyhoedd ac i gynghorau. Er enghraifft, mae deisebau'n galluogi cymunedau i dynnu sylw'n gyflym at y materion sydd fwyaf pwysig iddynt, gallant ychwanegu pwysau at sylwadau a wneir gan gynghorwyr ward ar eu rhan a darparu canolbwynt ar gyfer trafodaeth gymunedol. Yn eu tro, mae cynghorau'n cael cipolwg gwerthfawr ar bryderon eu cymunedau a gallant wedyn gefnogi cymunedau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

2.9 Ni ddylid ystyried deisebau yn niwsans neu'n fygythiad. Dylid eu hystyried yn gyfle da i glywed barn y cyhoedd, boed hynny i gefnogi neu i wrthwynebu rhywbeth y gallai'r cyngor fod yn ystyried ei wneud neu'n bwriadu ei wneud.

2.10 Wrth gynllunio cynlluniau deisebau, dylai cynghorau feddwl am y broses o safbwynt deisebwyr, gan gynnwys deall beth mae "llwyddiant" yn ei olygu i ddeisebwyr ar wahanol gamau yn y broses, a sut y gellir gwneud y broses mor dryloyw a syml â phosibl.

2.11 Dylai cynghorau hefyd roi sylw i'w dyletswyddau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth baratoi eu cynllun deisebau.

2.12 Dylid datblygu cynlluniau deisebau nid yn unig i sicrhau proses deg a chadarn ond hefyd i roi profiad buddiol a chadarnhaol i'r bobl hynny sy'n rhoi o'u hamser i gyflwyno a hyrwyddo deisebau. Mae hyn yn debygol o olygu ystyried y materion canlynol:

- Esboniad clir o'r materion y bydd y cyngor yn derbyn deisebau yn eu cylch, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer penderfynu derbyn neu wrthod deiseb;
- Sut a ble y rhoddir cyngor i ddeisebwyr i'w galluogi i ymgysylltu'n gynhyrchiol â'r broses, gan gynnwys y mesurau sydd ar waith ar gyfer pobl anabl ac unigolion â chyflyrau iechyd hirdymor a niwroamrywiaeth;
- Dealltwriaeth glir o'r gwahanol gamau yn y cynllun deisebau, gydag esboniad o ba drothwyon a ddefnyddir i benderfynu ar y newid o un cam i'r llall;
- Sut y mae deisebau'n cyd-fynd â chyfleoedd eraill i'r cyhoedd gymryd rhan – a chyfeirio at gyfleoedd eraill, naill ai fel rhywbeth sy'n ategu deiseb neu rywbeth yn ei lle, gan gynnwys rhoi'r deisebydd arfaethedig mewn cysylltiad â'i gynghorydd ward;
- Y corff cywir i ystyried deiseb benodol. Mae'n iawn i ddeisebau gael eu clywed gan amrywiaeth o wahanol gyrff, er mai'r cyngor llawn sy'n debygol o fod y dewis diofyn, oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn arbennig o ddefnyddiol i'r ddeiseb gael ei chlywed gan bwyllgor sy'n canolbwyntio'n benodol ar bwnc y ddeiseb ei hun;

- Bydd angen i gynlluniau deisebau ystyried pryd y caiff deisebau eu hystyried mewn pwyllgorau craffu. Nid oes gan y pwyllgorau hyn unrhyw bŵer i weithredu ar ddeisebau ond gallent (er enghraifft) fabwysiadu dadleuon deisebwyr fel argymhellion ffurfiol;
- Hawliau deisebwyr i siarad mewn cyfarfodydd, a sut y mae hyn yn ymwneud â hawliau ehangach i siarad yn gyhoeddus, a hawliau i wneud dirprwyaethau;
- Sut ac o fewn pa amserlen y bydd y cyngor yn rhoi adborth i'r deisebydd ar lwyddiant neu fethiant ei ddeiseb.

2.13 Anogir cynghorau i ymchwilio i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn arfer da o ran y fframwaith ar gyfer cynlluniau deisebau a nodir yn y canllawiau hyn. Er enghraifft, beth y gellid ei ystyried yn drothwy priodol ar gyfer nifer y llofnodion cyn y caiff deiseb ei hystyried, a phryd a sut y byddai'r trothwy hwn yn cael ei adolygu. Byddai hyn yn helpu i daro cydbwysedd rhwng cadw disgresiwn lleol yn seiliedig ar faint y cyngor, natur y cynllun a'r berthynas rhyngddo a llwybrau cyfranogi eraill yn y cyngor, a sicrhau cysondeb i aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn ymwneud ag amryw o gynghorau neu a allai symud o un ardal cyngor i un arall.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad:	**20.09.2023**
Teitl:	**CLILC - Hunanasesiad**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried fframwaith Hunanasesu arfaethedig gan CLILC, a darparu adborth**

Cefndir
Mewn ymateb i Ganllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cynnig fframwaith ar gyfer Hunanasesiad sy'n cynnwys anghenion cymorth, gwybodaeth, arweiniad a datblygu y gall cynghorau eu defnyddio i ddatblygu eu dull eu hunain o hunanasesu gan gydnabod eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol (Atodiad A)

Ar hyn o bryd mae CLILC yn ymgynghori â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ofyn am eu barn ar y fframwaith arfaethedig, cyn diwedd mis Hydref 2023.

Argymhellion:	Ystyried y protocol arfaethedig a nodi unrhyw sylwadau neu argymhellion i roi adborth i CLILC
Atodiadau:	Atodiad A – Fframwaith Hunanasesu
Dogfennau cefndir:	Llywodraeth Cymru Canllawiau statudol a di-statudol ar gyfer Prif Gynghorau Cymru; Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
Enw:	Lowri Edwards
Teitl Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	10.08.2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

O Siarter i Hunanasesiad, Datblygiad Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau

Ymgynghoriad mis Gorffennaf 2023

Cefndir

Ugain mlynedd yn ôl, roedd cefnogaeth a datblygiad i gynghorwyr yng Nghymru yn llai sefydledig nag y mae heddiw. Yn 2002, bu tîm gwella cyntaf CLlLC (Syniad bryd hynny) yn gweithio gyda phob cyngor a grŵp trawsbleidiol o gynghorwyr i nodi pa gymorth pellach a chyfleoedd hyfforddi a fyddai'n ddefnyddiol i gynghorwyr. Dywedodd y cynghorau y dylid cytuno ar arferion da yn y maes hwn, eu disgrifio, a'u lledaenu.

Mewn ymateb i'r cais hwn, ac yn unol ag arfer ehangach y DU, cafodd Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ei datblygu ar y cyd gan CLlLC a chynghorau i:

- ddarparu fframwaith arfer da ar draws Cymru,
- bod yn gymhelliant i gynghorau roi'r gefnogaeth a'r datblygiad angenrheidiol i'w cynghorwyr, a
- rhoi sicrwydd i gynghorwyr eu bod yn cael y gefnogaeth orau bosibl.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r Siarter wedi'i datblygu ymhellach ac mae'n allweddol o ran galluogi a chydnabod arfer da lleol. Mae mwyafrif y cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub wedi cael y Siarter, tra bod eraill wedi ei defnyddio fel fframwaith i nodi arfer da a gwirio bod ganddynt fecanweithiau cefnogi effeithiol ar waith.

Ers cychwyn y Siarter, mae tirwedd llywodraeth leol wedi newid yn sylweddol. Mae rôl cynghorwyr wedi dod yn fwy heriol ac amrywiol fyth. Mae adnoddau'n brin ac mae'r ffyrdd o weithio ar ôl Covid yn dra gwahanol. Mae gan gynghorau bellach ddulliau mwy soffistigedig a sefydledig o roi cefnogaeth i gynghorwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth gyda chanllawiau statudol i gynghorwyr a gwasanaethau democrataidd. Mae'r dirwedd wella hefyd wedi datblygu. Yn 2021-22 lansiwyd Rhaglen Wella newydd i gefnogi gwelliant a arweinir gan y sector ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Mae arweinwyr a phrif weithredwyr wedi mynegi ymrwymiad i welliant a arweinir gan y sector, wedi'i ategu gan her, cefnogaeth a chymorth cydfuddiannol gan gyfoedion.

Yn y cyd-destun hwn, adolygwyd y Siarter gan CLlLC a chynghorau a gynrychiolir gan eu Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd. Er bod y Siarter wedi darparu fframwaith ar gyfer arfer da, ysgogiad a chydnabyddiaeth o gefnogaeth i gynghorwyr yn y gorffennol, rydym yn cydnabod bod bellach angen fframwaith gwahanol sy'n adlewyrchu dull mwy blaengar o wella a arweinir gan y sector, deddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru, canllawiau statudol a chanllawiau eraill sy'n cydnabod yr adnoddau cynyddol gyfyngedig sydd ar gael gan gynghorau.

Fframwaith Hunanasesu Cefnogi Cynghorwyr.

Cynnig

Rydym yn cynnig y dylid disodli'r Siarter bresennol gan fframwaith hunanasesu gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar y gefnogaeth a ddarperir i gynghorwyr gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar eu cymunedau. Nod y fframwaith yw ymdrin â phob agwedd ar arfer da o ran cefnogi cynghorwyr. Fodd bynnag, gan fod blaenoriaethau ac adnoddau'n amrywio rhwng cynghorau, mater i gynghorau'n lleol fyddai faint o'r fframwaith i'w ddefnyddio a pha adrannau y dylid eu blaenoriaethu.

Byddai'r fframwaith yn cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

1. Nodau'r fframwaith

- Rhoi sicrwydd i gynghorau bod cynghorwyr yn cael y gefnogaeth, y wybodaeth, yr arweiniad a'r datblygiad sydd eu hangen i'w galluogi i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'w cymunedau.
- Darparu fframwaith cenedlaethol uchelgeisiol ond pragmatig o arfer da sy'n cydnabod gofynion deddfwriaethol, canllawiau statudol a chanllawiau eraill, yr anghenion a fynegwyd gan gynghorwyr ac enghreifftiau a dderbynnir yn gyffredinol o'r hyn sy'n gweithio.

2. Egwyddorion ar gyfer datblygu

- Datblygu'r fframwaith ar y cyd â chynghorau, CLlLC a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ac yn adlewyrchu dyheadau cenedlaethol.
- Datblygu fframwaith sy'n gweithio gyda'r rhaglen ehangach ar gyfer gwella a hunanasesu yng Nghymru, gyda'r potensial i'w ddatblygu fel rhan o'r rhaglen adolygu gan gymheiriaid os oes angen. Efallai y bydd cynghorau'n penderfynu y dylai'r hunanasesiad hwn gael ei arwain gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd.
- Datblygu fframwaith sy'n adlewyrchu anghenion pob cynghorydd waeth beth fo'i blaid wleidyddol neu statws annibynnol.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arferion rhwng cynghorau.

3. Cwmpas y fframwaith

Byddai'r fframwaith yn cwmpasu:

- cefnogaeth a datblygiad i gynghorwyr yn yr ystyr ehangaf i ymgorffori cefnogaeth gan y cyngor cyfan. Gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, er enghraifft, gwasanaethau democrataidd, timau cyfreithiol, digidol, cyfathrebu, dysgu a datblygu, a chyfarwyddiaethau yn eu cefnogaeth ar gyfer craffu, y bwrdd gweithredol a chynghorwyr rheng flaen,
- anghenion pob cynghorydd cyn etholiad, fel aelodau newydd ac fel gwleidyddion profiadol,
- holl rolau cynghorydd yn y cyngor ac yn y gymuned,
- cefnogaeth bersonol a 'phroffesiynol' i gynghorwyr o fewn dylanwad cynghorau a'r
- disgwyliadau a osodir ar gynghorau, swyddogion, a chynghorwyr eu hunain.

4. Cyd-destun

Bydd y fframwaith yn ystyried, er enghraifft: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol, Arolygon Ymadael CLILC, arolwg Llywodraeth Cymru o gynghorwyr, Menter Gwarineb mewn bywyd cyhoeddus, Canllawiau LIC ar gyfer Prif Gynghorau a'r fframwaith gwella a hunanasesu llywodraeth leol sy'n dod i'r amlwg.

5. Fframwaith enghreifftiol ar gyfer trafodaeth

Mae'r fframwaith isod yn seiliedig ar y nodau a'r egwyddorion arfaethedig ac yn cael ei gynnig fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwng yr holl fudd-ddeiliaid. Gwahoddir cynghorau i roi sylwadau ar addasrwydd y fframwaith fel dogfen sylfaen genedlaethol ar y cyd, y gall cynghorau ei defnyddio i ddatblygu eu dull eu hunain o hunanasesu gan gydnabod eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol.

Democratiaeth	**Canlyniadau a geisir:** • **Mae pobl yn cael eu hannog a'u galluogi i sefyll fel cynghorwyr.** • **Mae cynghorwyr yn deall eu rôl ac yn ei chyflawni'n effeithiol ac yn foesegol.** • **Gall cynghorwyr gymryd rhan gyfartal ym musnes y cyngor.** • **Mae cynghorwyr yn cael y gefnogaeth, y wybodaeth, a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt.** • **Mae cynghorwyr yn cynrychioli amrywiaeth y bobl y maent yn eu gwasanaethu.** • **Mae cynghorwyr yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.**
Thema	**Cwestiynau i'w gofyn**
Ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr	A yw'r cyngor yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i ddarpar ymgeiswyr ac ymgeiswyr swyddogol am rôl y cynghorydd, y cyngor ac unrhyw gyfrifoldebau a buddion cysylltiedig? A yw'r ymagweddau at allgymorth i ddarpar ymgeiswyr a'r wybodaeth ar eu cyfer yn cael eu gwneud yn unol â'r angen i annog amrywiaeth mewn ymgeiswyr ac yn cael eu llywio gan Ddatganiad Amrywiaeth y cyngor? A yw'r cyngor yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at wybodaeth a ddarperir gan LIC, CLILC, y Comisiwn Etholiadol a sefydliadau eraill sy'n darparu gwybodaeth i ymgeiswyr? A yw cynghorwyr, y cyngor a phleidiau lleol yn hyrwyddo mentrau ymgyrchu teg a pharchus? A yw darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am gefnogaeth ar gyfer sefyll, fel y gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig? A yw darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am y disgwyliadau a osodir arnynt i gymryd rhan mewn cyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus, y bydd rhai ohonynt yn orfodol?

Mae cynghorwyr yn deall eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.	A yw pob cynghorydd, pan gaiff ei ethol neu wrth gael ei ddewis ar gyfer swydd arbenigol, yn cael gwybodaeth ac arweiniad am bob agwedd ar ei rôl? A yw pob aelod yn cael fframwaith cymhwysedd i ddeall y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gynghorwyr? A yw disgrifiadau rôl (gweler modelau CLILC am enghreifftiau) wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y cyngor a chynghorwyr unigol wedi cytuno arnynt? A yw cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol wedi cael: • arweiniad ar eu rôl a'u cyfrifoldebau, • gwybodaeth gyfreithiol megis eu hatebolrwydd a buddiannau, • esboniad o'r disgwyliadau a osodir arnynt gan eu cyngor enwebu, • gofynion ar gyfer cyfathrebu â'r corff allanol ac adrodd yn ôl oddi wrtho?
Safonau Ymddygiad	A yw'r holl gynghorwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw at y cod ymddygiad lleol? A ydynt wedi cael canllawiau lleol ac unrhyw wybodaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru? A yw pwyllgorau safonau a chadeiryddion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol? A yw arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad ac yn cydweithredu â'r pwyllgor safonau? A yw'r holl gynghorwyr wedi ymrwymo'n ffurfiol i ymgymryd â phob agwedd ar eu rôl gyda chwrteisi a pharch tuag at ei gilydd, y cyhoedd a swyddogion ym mhob lleoliad a chyfrwng? A yw achosion o fwlio, aflonyddu a bygwth yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol?
Y Cyfansoddiad	A yw pob cynghorydd yn deall y cyfansoddiad, gan gynnwys: • rolau, cyfrifoldebau, a chyfyngiadau i rolau pwyllgorau, • rôl cynghorwyr a swyddogion unigol, • protocolau cynghorwyr / swyddogion, • arfer o ran cyfarfodydd, • archebion sefydlog, • rheolau trafodaeth, • ymgysylltu â'r cyhoedd, • rolau yn y cyngor lle bernir bod hyfforddiant cynghorwyr yn orfodol?
Cefnogaeth i Swyddogion	A oes gan bob pwyllgor, panel, fforwm ac ati lefel briodol o gefnogaeth i swyddogion? A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu gwaith cydweithredol a gwaith ar y cyd â chynghorau neu

	sefydliadau eraill, er enghraifft ar gydbwyllgorau corfforaethol? A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi yn eu cymuned a'u gwaith achos? A yw'r holl gynghorwyr yn cael y wybodaeth a'r ymchwil y mae ganddynt hawl i'w cael yn unol â gofynion y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 8 (1A) Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011. h.y. Mewn ymateb i geisiadau penodol ac yn rhagweithiol, mae'r holl gynghorwyr yn cael gwybodaeth, data, briff a hyfforddiant yn ymwneud â'u penderfyniadau, gwaith pwyllgor, gwaith cymunedol a gwaith achos. Mae'r gwasanaeth hwn yn: • darparu'n deg i bob aelod yn unol â phrotocol a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys safonau ac amseroedd ymateb, • eithrio gwybodaeth at ddefnydd plaid wleidyddol, • darparu'n gyfrinachol lle bo angen a chan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data a chyfraith gwybodaeth arall, • cael ei gyflawni gan y cyngor neu asiantaethau allanol, • gymesur ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae pwyllgorau gwasanaethau democrataidd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol a bod ganddo adnoddau digonol. A yw pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cael cymorth penodol gan swyddogion a all ddarparu ymchwil, cefnogaeth a chyngor diduedd? A yw natur unrhyw wybodaeth gefnogol, gan gynnwys gwasanaethau ymchwil, wedi cael cyhoeddusrwydd clir a'i hesbonio i bob cynghorydd?
Mynediad cyfartal	A yw'r trefniadau a wneir ar gyfer busnes y cyngor yn hyblyg ac a ydynt yn galluogi i gynghorwyr gyfranogi'n llawn waeth beth fo'u hamgylchiadau personol? A yw amseroedd, dulliau a lleoliadau cyfarfodydd yn adlewyrchu'r anghenion a fynegir gan gynghorwyr cymaint â phosibl? A yw cynghorwyr yn cael mynediad cyfartal i gyfarfodydd heb ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig? A yw'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad yn diwallu anghenion cynghorwyr? A yw cynghorwyr a chyfranogwyr eraill y cyfarfodydd yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfarfodydd? A yw amseroedd egwyl cynghorau yn adlewyrchu anghenion cynghorwyr sydd, er enghraifft, â chyfrifoldebau gofalu? A yw trefniadau rhannu swydd ar gyfer aelodau cabinet yn cael eu cefnogi fel bod y llwyth gwaith yn glir ac yn briodol? A oes mannau wyneb yn wyneb ar gael yn achlysurol ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol ar gais?
Cefnogaeth ar gyfer hawliau, diogelwch a lles cynghorwyr	A roddir arweiniad i gynghorwyr ar eu hawliau a'u buddion? Er enghraifft, cyflogau, absenoldeb teuluol, rhannu swydd ar gyfer aelodau'r pwyllgor gwaith / cabinet, lwfansau, treth

	a budd-daliadau, pensiynau, indemniadau, diogelu data a rhyddid gwybodaeth? A yw cynghorwyr yn cael eu hannog yn frwd i gymryd y cyflogau a'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, a'u hannog i beidio â chymryd y lwfansau a'r cyflogau blaenorol? A oes gan y cyngor ddyletswydd gofal anffurfiol ar waith sy'n dangos ymrwymiad rhagweithiol i ddiogelu iechyd a lles cynghorwyr? A oes cofnod ohono ac a yw ar gael i aelodau ei weld? A yw'n nodi natur unrhyw gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr, er enghraifft cwnsela a gwiriadau iechyd, a'r rhai sy'n gyfrifol am helpu cynghorwyr i gael mynediad at y gefnogaeth hon? A roddir arweiniad i gynghorwyr ar gynnal eu lles a'u diogelwch personol? Er enghraifft, gweithio ar eich pen eich hun, bwlio ac aflonyddu. A yw'r cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i gefnogi cynghorwyr sy'n cael profiad o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys cysylltu â'r heddlu os yw'n briodol?
Amrywiaeth	A yw Datganiad Amrywiaeth y cyngor wedi'i gytuno gan y Cyngor Llawn? A yw'n cael ei fonitro? A yw'r Datganiad Amrywiaeth yn nodi'r camau y mae'r cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hannog i sefyll a chael swyddi cyfrifol lle bynnag y bo modd? A yw cynghorwyr â gofynion mynediad arbennig yn cael eu cefnogi yn eu gwaith yn y cyngor a'r gymuned?
Digidol	A yw pob cynghorydd wedi cael yr offer neu'r cyllid i brynu'r offer, meddalwedd, apiau a'r cysylltedd sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn swyddfeydd y cyngor, gartref ac wrth deithio yn ardal y cyngor? A yw'n cynnwys ffonau clyfar a gliniaduron/tabledi? A ddarparwyd hyfforddiant llawn ar ddefnyddio offer a phecynnau? A oes cymorth technegol ar gael? A yw cynghorwyr yn cael digon o gefnogaeth i fynd i gyfarfodydd aml-leoliad? A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy ganllawiau ar sut i'w defnyddio a diogelwch ar-lein?

Cymuned	**Canlyniadau a geisir:** • **Mae cynghorwyr yn arwain, cynrychioli, eirioli dros, a galluogi eu cymunedau.** • **Mae cynghorwyr yn sicrhau bod adnoddau lleol ar gael ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf.** • **Mae cynghorwyr yn annog cyfranogiad dinasyddion ac arloesi.**

	• **Mae cynghorwyr yn gweithio gyda chymunedau i'w gwneud yn gynaliadwy ac yn wydn.**
Thema	**Cwestiynau i'w gofyn**
Ymwybyddiaeth y cyhoedd	A yw'r cyngor yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr ac ASau lleol, ASau a chynghorwyr tref a chymuned? A yw pobl yn gwybod pa haen o gynrychiolwyr y dylid cysylltu â nhw ar gyfer gwahanol faterion lleol? A yw'r cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynghorwyr ac yn hyrwyddo eu gwerth i'r gymuned?
Cymunedau yn cysylltu â chynghorwyr	A oes systemau ar waith i drigolion lleol a grwpiau cymunedol gysylltu â'u cynghorydd ward lleol, a/neu gynghorwyr â rolau penodol, os yw'n briodol? A yw'r systemau a'r safonau hyn ar gyfer eu cymhwyso wedi'u mynegi'n glir a'u cyhoeddi i'r cyhoedd a chynghorwyr?
Cymorthfeydd a chyfarfodydd cymunedol	A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan y cyngor i gynghorwyr drefnu cymorthfeydd a chyfarfodydd cymunedol yn ddigonol? A yw'r swyddogion perthnasol yn mynd i gyfarfodydd cymunedol ar gais cynghorwyr lle y bo'n briodol? A yw maint y gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr wedi'i fynegi'n glir i bob cynghorydd?
Ymgysylltiad, arweinyddiaeth a chyd-gynhyrchu yn y gymuned	A yw cynghorwyr yn cael eu hysbysu, eu cefnogi ac yn cael adnoddau i alluogi eu cymunedau i fod yn gynaliadwy ac yn wydn drwy, er enghraifft: • ymgynghoriad cymunedol ffurfiol ac anffurfiol • cydweithio gydag arweinwyr cymunedol i ddiwallu anghenion ar lefel leol, • cyd-gynhyrchu polisïau a chamau gweithredu sy'n arwain at gymunedau llwyddiannus gyda phobl leol? A yw'r gefnogaeth hon ar gyfer cynghorwyr wedi'i mynegi'n glir i bob cynghorydd?
Cefnogaeth gwaith achos	A oes systemau digonol ar waith i gefnogi cynghorwyr yn eu gwaith achos? A yw'r gefnogaeth hon yn: • darparu'n deg i bob aelod yn unol â phrotocol a gyhoeddwyd, • eithrio gweithgareddau plaid wleidyddol, • darparu'n gyfrinachol lle bo angen a chan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data a chyfraith gwybodaeth arall, • gymesur ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. A roddir arweiniad i gynghorwyr ar reoli gwaith achos? Drwy systemau rheoli gwaith achos, er enghraifft.
Goruchwyliaeth a diogelwch	A oes gan y cyngor brotocolau clir ar waith ar gyfer sicrhau diogelwch personol a lles cynghorwyr, ac sydd wedi'u mynegi'n glir i gynghorwyr a'r cyhoedd?

	A yw disgwyliadau a hygyrchedd y gymuned yn cael eu rheoli fel na chysylltir â chynghorwyr yn amhriodol? A roddir gwybodaeth ac arweiniad i gynghorwyr ar reoli eu perthynas â'r cyhoedd a chynnal ffiniau priodol?

Dysgu	**Canlyniad a geisir:** **Mae gan gynghorwyr y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar bobl leol.**
Themâu	**Cwestiynau i'w gofyn**
Strategaeth Datblygu Cynghorwyr	A oes gan y cyngor ddull effeithiol a diffiniedig o ddatblygu cynghorwyr, sy'n cynnwys yr anghenion a fynegwyd gan bob cynghorydd ac anghenion y sefydliad a'r gymuned?
Adolygiadau Datblygiad Personol	A yw'r cyngor yn darparu cefnogaeth bersonol ddefnyddiol i bob cynghorydd ac adolygiadau datblygu a gynhelir gan bobl sy'n gymwys i wneud hynny?
Rhaglen Dysgu a Datblygu	A oes gan y cyngor raglen ddysgu a datblygu flynyddol sy'n cael ei hyrwyddo'n llawn i gynghorwyr? A all pob cynghorydd gael mynediad cyfartal at y rhaglen? A yw'r rhaglen yn cael ei monitro, ei gwerthuso a'i diweddaru'n rheolaidd? A yw cynghorwyr yn gallu nodi canlyniadau cadarnhaol o'r hyfforddiant, fel gwell dealltwriaeth a pherfformiad a chanlyniadau penodol i'r gymuned?
Rhaglen Sefydlu	A yw pob cynghorydd newydd neu gynghorydd sy'n dychwelyd yn cael rhaglen sefydlu gynhwysfawr, aml-sesiwn, wedi'i blaenoriaethu, sy'n galluogi i gynghorwyr gyfranogi'n effeithiol yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd?
Ansawdd Datblygiad	A yw cynghorwyr yn credu bod y gweithgareddau dysgu yn ddigon ysgogol, perthnasol ac wedi'u darparu mewn arddulliau blaengar a phriodol? A oes gan y cyngor ddull systematig ac effeithiol o gomisiynu, datblygu, darparu a gwerthuso ei weithgareddau hyfforddi a datblygu?
Cyfranogiad	A yw cynghorwyr yn manteisio ar yr holl gyfleoedd datblygu sy'n berthnasol iddynt? A roddir sylw i unrhyw ddiffyg cyfranogiad?
Dysgu oddi wrth eraill	A yw cynghorwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu rhanbarthol a chenedlaethol a rennir? A gaiff cynghorwyr eu hannog a'u cefnogi i gydweithio â chynghorau eraill a chyrff cenedlaethol i weithredu fel cymheiriaid gwleidyddol, mentoriaid ac mewn rhwydweithiau i rannu ymagweddau at rôl cynghorydd, nodi arfer da a chyfrannu at welliant a arweinir gan y sector?